

Cylchlythyr Ffes 3: Chwefror 2021



<p style="text-align: center;">Cyngor Ysgol Ffes 3</p> <p>Mae Cyngor Ysgol Ffes 3 wedi bod yn parhau gyda'u gwaith yn ystod yr hanner tymor cyntaf ac wedi cynnal dau gyfarfod ar-lein. Cawsom gyfle i drafod llwyddiannau dysgu ar-lein Ysgol Bro Idris a chasglu syniadau ar sut i ddatblygu hyn ymhellach.</p> <p style="text-align: center;">Cyngor Iaith</p> <p>Trefnodd y Cyngor iaith gystadleuaeth sgwennu stori y tymor hwn i holl ddisgyblion yr ysgol, ac mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i gyhoeddi Cylchgrawn Ysgol cyn diwedd y flwyddyn. Byddwch yn barod hefyd am ein gweithgareddau Dydd Gwyl Dewi.</p>	<p>Gwybodaeth TGAU Blwyddyn 11</p> <p>Os ydych chi'n sefyll cymwysterau TGAU yr haf hwn (2021), eich athrawon neu'ch darlithwyr fydd yn penderfynu ar eich gradd. Ni fydd asesiadau nac arholiadau allanol.</p> <p>Gwybodaeth TGAU Blwyddyn 10</p> <p>Ni fydd yn bosibl cymryd rhai unedau TGAU yn unig eleni, a bydd angen inni ystyried beth fydd y trefniadau asesu ar gyfer y pynciau hynny y flwyddyn nesaf.</p> <p>Bydd Cymwysterau Cymru yn diweddarau eu gwefan unwaith y bydd mwy o wybodaeth. https://www.qualificationswales.org/cymraeg/</p>
<p>Dyddiadau Allweddol:</p> <p>1/3/21: Dydd Gwyl Dewi 15/3/21: Noson Rhieni Blwyddyn 9 19/3/21: Dewsiadau pynciau terfynol Blwyddyn 9 26/3/21: Adroddiadau interim i bawb 26/3/21: HMS (dim ysgol na gwersi ar-lein i'r disgyblion) 29/3/21 - 9/3/21: Gwyliau'r Pasg 23/4/21: Adroddiadau Llawn Blwyddyn 10 26/4/21: Noson Rhieni Blwyddyn 10 31/5/21 - 4/6/21: Hanner Tymor 19/7/21: Gwyliau'r Haf</p>	<p>Nosweithiau Rhieni</p> <p>Newyddion cyffrous i athrawon, rhieni a disgyblion - mae'r ysgol wedi buddsoddi yn 'School Cloud'. Bydd 'School Cloud' yn ein galluogi i gynnal nosweithiau rhieni ar-lein. Mae'r wefan yn galluogi rhieni i wneud apwyntiadau gydag athrawon ar amser cyfleus, yn atgoffa rhieni o'r amseroedd hyn ac yn eu gosod ar amserlen ar gyfer y noson. Ar y noson, bydd rhieni ac athrawon yn gallu gweld a chlywed ei gilydd dros y sgrin. Gobeithiwn yn fawr y bydd hyn yn fodd effeithiol o gyfathrebu gyda rhieni a thrafod cynnydd ein disgyblion.</p>
<p>Her Cerdded i Qatar</p> <p>Mae'r app 'Strava' wedi bod yn gweithio'n galed iawn dros yr wythnosau diwethaf gyda nifer o rieni, disgyblion, athrawon, cymorthyddion a glanhawyr yn tracio'r holl filltiroedd maent wedi cerdded pob dydd i gyrraedd ein nod o gyrraedd Qatar cyn hanner tymor. LLongyfarchiadau i bawb! Ymlaen i Cape Town nesaf!</p>	<p>Cystadleuaeth Crempog</p> <p>Cofiwch am gystadleuaeth yr adran Dechnoleg sef coginio ac addurno crempog wythnos nesaf! Cewch farciau am greadigrwydd ac arddangos amrywiaeth o sgiliau megis cymysgu, torri a chyflwyno. Cofiwch roi llun o'r crempog ar Google Classroom erbyn Chwefror 18. Pob lwc i bawb!</p>
<p style="text-align: center;">Pwyntiau Cyswllt Ffês 3</p> <p>Mewn cyfnod mor anodd a digynsail, cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.</p> <p style="text-align: center;">Pennaeth Cynorthwyol Ffês 3 Miss Melanie Cooper</p> <p style="text-align: center;">Phase 3 Learning Coach for Standards and Well being Mrs Awel Davies</p>	<p>Dewsiadau BI 9</p> <p>Rydym eisoes wedi rhannu taflen dyddiadau allweddol a llyfryn gwybodaeth pynciau dewis gyda rhieni a disgyblion. Bydd nifer o weithgareddau tymor nesaf i gefnogi sy'n cynnwys cyflwyniadau gan athrawon a gwersi gyrfaedd ar-lein. Mae gwefan Gyrfa Cymru yn ddefnyddiol iawn ac yn cynnwys clipiau fideo, cyflwyniadau a gwybodaeth defnyddiol ar gyfer cefnogi disgyblion i ddewis y pynciau mwyaf addas iddyn nhw. https://gyrfacymru.llyw.cymru/</p>